# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr **2il o Orffennaf** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan am **7yh.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | John Till (Cadeirydd), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir) Huw Pritchard (Pentrefelin), Enid Egginton, Clifford Williams; John Jones (Garndolbenmaen) Megan Lloyd Williams (Golan), Richard Williams (Prenteg) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards (Penmorfa), Raymond Jones (Pentrefelin), Gwilym Evans (Prenteg), Cynghorydd June Jones a Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan Buddiant: | Neb |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | Nodwyd nad oedd y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod ar 4 Mehefin ynghylch Eitem 11, *Grant Gwynedd Ni,* wedi'i gofnodi. Cytunwyd felly i gymeradwyo'r cofnodion gyda'r cywiriad canlynol:<br><br>Gan fod y Cyngor yn dal i aros am brisiau ar gyfer y prosiectau posibl, nid oedd modd gwneud penderfyniad yn y cyfarfod ar y 4ydd o Fehefin. Ar ôl derbyn yr holl brisiau, ac o ystyried yr amserlen dynn ar gyfer cyflwyno'r cais grant, penderfynwyd ymdrin â'r mater drwy e-bost.<br><br>Cadarnhawyd drwy e-bost fod mwyafrif yr Aelodau o blaid cyflwyno ceisiadau ar gyfer y prosiectau canlynol:<br>· Meinciau Neuadd Prenteg<br>· Gwelliannau i Faes Parcio Penmorfa<br>· Trawsnewid yr ardal gefn Canolfan Pentrefelin yn ardd ddeniadol a hygyrch<br><br>Penderfynwyd peidio gwneud cais am fainc newydd ar dir ger Bryn Tyddyn, Pentrefelin y tro hwn.<br><br>Awgrymwyd hefyd y dylid gwneud cais i Grant Cronfa Gymunedol Eryri ar gyfer bwrdd gwybodaeth Eifion Wyn. Oherwydd terfyn amser tynn ar gyfer y gronfa hon hefyd, cytunwyd drwy e-bost i'r Clerc barhau â'r gwaith o gyflwyno'r cais.<br><br>Cofnodwyd bod y penderfyniadau hyn, er eu gwneud y tu allan i gyfarfod ffurfiol oherwydd yr amgylchiadau, yn cael eu cadarnhau'n swyddogol gan y Cyngor ac yn cael eu cynnwys yn y cofnodion er mwyn sicrhau tryloywder a chydymffurfiaeth<br><br>HP yn cynnig a EE (Garn) yn eilio cywirdeb cofnodion y 4ydd o Fehefin gyda'r ychwanegiad uchod. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | **Cyfrif Cadw HTB -** Adroddodd y Clerc ei bod wedi llwyddo i agor cyfrif cadw gyda mynediad hawdd gyda Hampshire Trust Bank. Gan fod cryn amser wedi mynd heibio ers y penderfyniad diwethaf |

| | | |
|---|---|---|
| | | ynghylch faint o arian i'w drosglwyddo i'r cyfrif newydd, cytunwyd i wneud penderfyniad newydd.<br><br>Penderfynwyd yn unfrydol i drosglwyddo **£20,000** i'r cyfrif cadw.<br><br>**Archwiliadau Mynwentydd / Cae Chwarae:** Adroddwyd bod yr archwiliadau wedi'u cwblhau ym Mynwent Pennant, Mynwent Eglwys Ynys Cynhaearn ac ym Mynwent Prenteg.<br><br>Nodwyd bod yr archwiliadau ym Mhenmorfa (y Fynwent a'r Cae Chwarae) ac ym Mynwent Bethel yn dal i'w cwblhau, a bod angen eu gorffen erbyn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.<br><br>**Grant Gwynedd Ni / Cronfa Gymunedol Eryri:** Adroddwyd bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn ei geisiadau am gyllid. Dyfarnwyd **£7,000** gan Gwynedd Ni tuag at feinciau Neuadd Prenteg, gwelliannau i faes parcio Penmorfa a thrawsnewid yr ardal gefn Canolfan Pentrefelin yn ardd ddeniadol a hygyrch. Yn ogystal â'r uchod dyfarnwyd **£3,500** fel cyfraniad tuag at y gwaith o greu a gosod y bwrdd dehongli am Eifion Wyn yng Nghwm Pennant.<br><br>Cofnodwyd bod y Cyngor yn croesawu'r cyllid hwn, a bod y prosiectau perthnasol yn gallu symud ymlaen yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd. |
| 7. | Mynwentydd: | Dim i'w adrodd |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn cwyn ynghylch cyflwr Llwybr Rhif 1, sy'n dod allan ger yr ysgol yng Ngarndolbenmaen. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â'r contractwr torri gwair, a bod trefniadau ar waith i dorri'r llwybr o fewn y pythefnos nesaf.<br><br>Soniodd EE (Garn) ei bod wedi derbyn sylw am y llwybr sydd yn mynd rhwng Bro Pedr Fardd ar hen dai ffatri. Clerc i ddarganfod pwy sydd yn gyfrifol am y llwybr yma. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | <u>Prenteg</u> – Dim i'w adrodd<br><br><u>Bryncir</u> – Dim i'w adrodd<br><br><u>Garndolbenmaen</u> - Nodwyd bod angen torri'r gordyfiant ar hyd y ffordd o geg Lôn Garndolbenmaen i Gapel Jerwsalem, a'r Clerc i roi gwybod i Gyngor Gwynedd.<br><br>Cofnodwyd hefyd fod gordyfiant yn gorchuddio'r arwydd ger Glan Byl sy'n rhybuddio am gyffordd i fyny tuag at Garnedd Hir a Penygarnedd ar yr ochr chwith wrth deithio tuag at Borthmadog; gofynnwyd am ei dorri ar frys.<br><br>** MLW yn ymuno hefo'r cyfarfod |

| | | |
|---|---|---|
| | | Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan breswylydd yn mynegi pryder am ymlediad chwyn, mieri a chlymog Japaneaidd posibl o'r ardd gymunedol i dir preifat. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi trafod y mater gyda Stephen Churchman, a bod ADRA yn gyfrifol am y darn hwn o dir. Mae Stephen Churchman wedi ymateb i'r preswylydd ac yn bwriadu cysylltu ag ADRA; y Clerc hefyd i roi gwybod i ADRA.<br><br>Soniwyd bod Gŵyl Garn yn cael ei chynnal ar 15 Awst, a bod cystadleuaeth Cneifio Cyflym yn rhan o'r digwyddiad eleni.<br><br><u>Pentrefelin</u> – Adroddwyd bod lori arall wedi mynd yn sownd ac wedi gorfod bacio'n ôl am gryn bellter er mwyn troi a dychwelyd tuag at Griccieth. Nodwyd bod yr Heddlu wedi gorfod mynychu'r safle unwaith eto. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn adrodd y mater i'r Uned Draffig unwaith yn rhagor. Awgrymwyd hefyd y dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r Heddlu a'r Uned Draffig i gyfarfod misol nesaf y Cyngor ym mis Medi.<br><br><u>Golan</u> – Nodwyd bod cyflwr y ffordd o'r gyffordd hyd at feudy Cefn Coch Isaf wedi dirywio'n sylweddol yn dilyn y cyfnod diweddar o wres eithriadol. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn adrodd y mater i Gyngor Gwynedd.<br><br>Soniwyd hefyd fod yr arwydd safle bws y tu allan i'r Ganolfan Gymdeithasol yng Ngolan yn cael ei orchuddio gan ordyfiant. Cytunwyd yn unfrydol y byddai'r Clerc yn gofyn i Madog Gardencare dorri'r gordyfiant.<br><br>Mynegwyd siom nad oedd ymateb wedi'i dderbyn gan Dŵr Cymru hyd yma ynghylch cyflwr yr hen waith dŵr yng Nghwmystradllyn. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Dŵr Cymru unwaith eto i ofyn am gyfarfod safle. |
| 10. | Gohebiaeth | a. Cyngor Gwynedd – Caead Argyfwng o Fynydd Glas, Garndolbenmaen I Fryn Glas, Garndolbenmaen<br>b. Cyngor Gwynedd – Hysbysiad Statudol o'r Cynnig i Gau Ysgol Nebo<br>c. Cyngor Gwynedd – Hysbysiad Statudol o'r Cynnig i Gau Ysgol Baladeulyn |
| 11. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Dŵr Cymru – gwaith ym Mhrenteg<br>b. Unllais Cymru - hyfforddiant Mehefin i Fedi |
| 12. | Cynllunio | Rhestrau: 1/6, 8/6, 15/6, 22/6<br><br><u>Ceisiadau Cynllunio</u><br><br>Dim ceisiadau |
| 13. | Materion Ariannol | <u>Materion Ariannol</u><br><br><u>Ceisiadau am arian:</u> Dim |

| | | |
|---|---|---|
| | | Monitro'r gyllideb : Dim gorwariant<br><br>Biliau i'w talu<br><br>Cyflog Clerc £347.32<br>Ffôn £ 15.00<br>Cyfrifiadur £ 20.00<br>HMRC £ 87.00<br>Dewi Williams £465.60<br>Cyngor Gwynedd £336.00<br><br>Ychwanegwyd:<br><br>ICO £73.00<br>Cymru 1 Cyf £466.80<br>Madog Gardencare £390.00<br><br>****Cymeradwywyd i dalu'r uchod****<br><br>Derbyniadau<br><br>Llog £102.91<br><br>Balansau Cyfrifon Banc<br><br>Cyfredol: £409.32<br>Cadw: £39,102.01 |
| 14. | Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/Gwefan | Pont y Wern<br>Lôn Cwmystradllyn<br>Hen Waith Dŵr Cwmystradllyn<br>Pryder Diogelwch Lôn Garnedd Hir |

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 3ydd o Fedi 2026**